

Welsh Government Buildings
Picton Terrace
Carmarthen SA31 3BT

Adeiladau Llywodraeth Cymru
Teras Picton
Caerfyrddin SA31 3BT



17 Chwefror 2026

Dr Neil Wooding
Cadeirydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Anfonwyd y llythyr drwy e-bost yn unig: neil.wooding@wales.nhs.uk

Annwyl Dr Wooding

Cynllun Gwasanaethau Clinigol (CSP) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ysgrifennaf cyn y cyfarfod bwrdd cyhoeddus eithriadol yn nes ymlaen yr wythnos hon, i grybwyll pryderon diweddar gan rai pobl yn ein cymunedau ynghylch amseriad proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd, ac i gadarnhau ein disgwyliadau ynghylch sut y dylai'r Bwrdd fynd ati i wneud unrhyw benderfyniadau am y Cynllun Gwasanaethau Clinigol.

Yn ddiweddar, mae rhai aelodau o'r cyhoedd wedi rhannu pryderon na fyddai'n briodol gwneud penderfyniadau mawr ynghylch dyfodol gwasanaethau iechyd yn ardal Hywel Dda ar hyn o bryd. Maent yn teimlo y dylai'r Bwrdd fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer newidiadau ym mholisi'r GIG, a allai ddilyn etholiadau'r Senedd sydd ar ddod.

Prif Weithredwr/Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/ Regional Director (Llais West Wales):
Donna Coleman

E-bost | E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org

Ffôn Tel: 01646 697 610

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Gofynnwn i'r Bwrdd roi esboniad clir o sut y mae wedi ystyried y pryderon hyn, gan gynnwys sut y mae wedi ystyried y posibilrwydd y bydd newidiadau polisi yn y dyfodol.

Yn ogystal ag ymateb yn llawn i'r materion a godwyd gan bobl yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac effaith y newidiadau a nodwyd trwy ei asesiadau, mae Llais hefyd eisiau gweld unrhyw benderfyniadau ynghylch y Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r pwyntiau allweddol canlynol.

- Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi llawer iawn o wybodaeth am yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau, y cynigion, a'r atborth o ymgysylltu ac ymgynghori. Rydym yn croesawu'r dull tryloyw hwn, sy'n galluogi'r Bwrdd i ystyried yr holl dystiolaeth yn gyhoeddus a gwneud ei benderfyniadau ei hun.

Mae'r 9 maes gwasanaeth sy'n cael eu hystyried wedi'u cysylltu'n agos. Mae hyn eisoes yn gwneud dod i benderfyniadau'n gymhleth. Mae gofyn i'r Bwrdd benderfynu heb un gyfres o opsiynau a ffafir gan y Tîm Gweithredol yn rhoi hyblygrwydd ond, oni bai ei fod yn cael ei drin yn effeithiol, mae hefyd yn creu risg bosibl o benderfyniadau gwael. Gall hefyd ei gwneud hi'n anoddach i'r cymunedau a effeithir ddeall y cyfeiriad o'r papurau yn unig.

Deallwn y bydd diwrnod cyntaf y cyfarfod bwrdd cyhoeddus yn cynnwys cyflwyniadau i gefnogi trafodaethau'r Bwrdd. Mae'n bwysig bod y cyflwyniadau hyn yn crynhoi'r dystiolaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus, ac nad ydynt yn cyflwyno unrhyw wybodaeth newydd ar y cam hwyr hwn.

- Ni ddylid gwneud unrhyw benderfyniad am unrhyw newid i wasanaeth oni bai bod y newid hwnnw wedi bod yn rhan o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn ei gyfanrwydd. Felly, er enghraifft, os yw'r Bwrdd o'r farn mai opsiwn amgen, a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yw'r ffordd orau

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

ymlaen, dylai'r opsiwn hwnnw fod yn destun ymgysylltu neu ymgynghori â'r cyhoedd yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.

- Rhaid i unrhyw benderfyniad ystyried yn llawn, nid yn unig yr effaith ar gymunedau lleol yn ardal Hywel Dda, ond hefyd ar bobl sy'n byw y tu allan i'r rhanbarth sy'n dibynnu ar ei wasanaethau.
- Rhaid i benderfyniadau ddangos sut mae newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â datblygiadau ehangach sy'n effeithio ar feysydd clinigol perthnasol, e.e., llwybrau cenedlaethol sy'n cael eu datblygu ledled Cymru.
- Rhaid rhoi digon o amser a sylw i ystyried effaith pob cynnig ar bobl a chymunedau, gan gynnwys y rhai lle gallai lleisiau pobl fod wedi bod yn dawelach.
- Rhaid i unrhyw benderfyniadau am newidiadau i wasanaethau unigol ystyried y canlyniadau ehangach i wasanaethau eraill, a gallu cyffredinol y bwrdd iechyd, ei staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau i addasu i newidiadau.
- Ni ddylai ymdrechion i fynd i'r afael â phwysau neu freuder mewn un gwasanaeth roi dyfodol ysbytai Hywel Dda mewn perygl yn anfwriadol.
- Pa bynnag benderfyniadau y mae'r Bwrdd yn eu gwneud, rhaid bod ymrwymiad clir i ymgysylltu, a chynnwys cymunedau yr effeithir arnynt yn barhaus drwy gydol unrhyw weithredu.

Yn olaf, edrychaf ymlaen at dderbyn ymateb i'r sylwadau a wnaed yn fy llythyr, dyddiedig 22 Rhagfyr 2025.

Yr eiddoch yn gywir



Donna Coleman

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.